

Lance Carver
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Bro Morgannwg

Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 22 Mawrth a 26 Mawrth 2021. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailgychwynnodd rhaglen ddiwygiedig o wiriadau sicrwydd ym mis Medi.

Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn canolbwyntio ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rydym wedi cysoni ein canfyddiadau â'r pedair egwyddor: Pobl – Llais a Rheoli, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol er mwyn cadw'r bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'r gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hybu eu llesiant yn ystod y pandemig?

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2. Beth y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i atal yr angen i blant ddod yn rhan o'r system ofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym pan fydd hi'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Pobl – llais a rheoli – Gwnaethom ofyn y canlynol: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, a'u bod yn cadw rheolaeth dros eu bywydau. Ar yr un pryd, cydbwysu argymhellion a gofynion lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym fod cyswllt wedi'i gynnal, at ei gilydd, drwy gydol y pandemig yn y gwasanaethau i oedolion a phlant, a hynny drwy ddulliau rhithwir ac wyneb yn wyneb pan oedd angen, a bod risgiau wedi cael eu hasesu'n briodol. Dywedodd y mwyafrif o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg y bu'n hawdd neu'n hawdd iawn cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol. Er enghraifft, dywedodd un unigolyn, "*In the beginning it was difficult to make contact. (Yn y dechrau, roedd hi'n anodd cysylltu.) But over the year it has become easier. (Ond dros y flwyddyn, mae wedi dod yn haws.) So really I would have given a rating of not easy a year ago and now it is very easy.*" (Felly, byddwn wedi dweud ddim yn hawdd flwyddyn yn ôl, ond erbyn hyn, mae'n hawdd iawn".)

Soniodd y gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw am y cymorth a gawsant yn ystod y pandemig. Mae swyddogion gofalwyr dynodedig yn y timau gwasanaethau oedolion. Lansiodd porth gofalwyr yn fuan ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno, gyda'r nod o gefnogi'r gwasanaeth a ddarperir i ofalwyr. Gwelsom enghreifftiau lle y cynigiwyd asesiad gofalwyr i ofalwyr, ond nid oedd dogfennaeth ysgrifenedig ar gael i ddangos a oedd yr asesiad wedi'i gwblhau ac, os felly, beth oedd canlyniad yr asesiad. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod trywydd archwilio clir mewn cysylltiad ag asesiadau gofalwyr er mwyn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu. Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r prosesau sydd ar waith i gyfleu canlyniadau asesiadau gofalwyr er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn rhan greiddiol o'r broses o gynllunio gofal.

Ar y cyfan, gwelsom fod barn y bobl yn cael ei cheisio yn y gwasanaethau oedolion a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Roedd hyn yn amlwg yn y cofnodion a welsom a'r adborth a gafwyd gan y bobl. Roedd materion yn ymwneud â galluedd meddyliol a buddiannau pennaf yn cael eu hystyried fel mater o drefn. Gwelsom enghreifftiau da o asesiadau o alluedd meddyliol a'r defnydd o eiriolwyr, lle y bo angen.

Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod swyddogion adolygu annibynnol yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed yn gyson, a'u bod yn cael eu cefnogi i gymryd rhan yn eu hadolygiadau. Mae hwn yn faes y mae AGC wedi tynnu sylw ato mewn arolygiad a gweithgarwch â phwyslais penodol blaenorol. Er ein bod yn cydnabod yr heriau a gyflwynwyd gan y pandemig, roedd diffyg tystiolaeth ysgrifenedig i gadarnhau a oedd y

swyddogion adolygu annibynnol yn gwneud ymgais gyson i siarad/cyfarfod â phlant a phobl ifanc. Nid oedd digon o dystiolaeth ysgrifenedig chwaith i gadarnhau y gallent fonitro'n gyson pa mor dda roedd y cynlluniau'n cael eu cyflawni er mwyn bodloni canlyniadau llesiant y plentyn, ac nid oedd dystiolaeth o adolygiadau canol tymor a fyddai'n helpu yn hyn o beth.

Yn y gwasanaethau plant, roedd dystiolaeth glir o bwyslais ar y plentyn/person ifanc, a phwyslais ar gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd. Roedd dystiolaeth y rhoddwyd blaenoriaeth i sicrhau bod plant mewn gofal yn cael amser gyda'u teuluoedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb pan oedd hi'n ddiogel gwneud hynny a defnyddiwyd dulliau cyfathrebu rhithwir amgen yn ôl yr angen.

Un o flaenoriaethau allweddol yr awdurdod lleol yw sicrhau bod prosesau recriwtio a chadw staff yn parhau. Gwelsom fod bylchau yn rhai o'r timau gwasanaethau plant. Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym ei fod wedi ceisio recriwtio i swyddi gwag a bod strategaethau recriwtio ar waith. Defnyddiwyd staff asiantaeth i lenwi bylchau yn rhai o'r timau. Mae cynnal gweithlu sefydlog yn y gwasanaethau plant yn her benodol. Roedd hyn, ynghyd â chynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau, wedi lleihau capasiti a rhoi pwysau gwaith trwm ar rai timau. Rhaid i recriwtio a chadw gweithlu sefydlog barhau i fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol. Byddwn yn parhau i fonitro hyn gan fod cydnerthedd a chapasiti mewn timau yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd y swyddogaethau statudol.

Mae sicrhau llesiant staff yn flaenoriaeth allweddol i uwch-reolwyr. Ar ddechrau'r pandemig, rhoddwyd systemau ar waith ar gyfer gweithio ystwyth a chafodd y problemau TG cychwynnol eu datrys. Defnyddiwyd adnoddau mewn modd hyblyg ar draws yr awdurdod lleol a chawsant eu targedu at feysydd lle roedd eu hangen fwyaf.

Gwelsom fod morâl y staff yn gadarnhaol ar y cyfan a bod gan y staff feddwl mawr o'r rheolwyr. Dywedodd y staff fod yr uwch-reolwyr wedi cyfathrebu'n dda ac wedi bod yn ymatebol ac yn amlwg yn ystod y pandemig. Dywedodd y mwyafrif o'r ymarferwyr a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn teimlo bod eu cydweithwyr a'u rheolwyr wedi'u cefnogi, a'u bod o'r farn bod eu llwyth gwaith yn rhesymol.

Atal – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Mae'r awdurdod lleol yn elwa ar grŵp o reolwyr gweithredol sy'n deall eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u huchelgeisiau ar gyfer y gwasanaethau. Dywedodd y rheolwyr eu bod wedi cael arweinyddiaeth a chymorth effeithiol gan yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig a bod sianeli cyfathrebu agored a chadarnhaol wedi'u sefydlu a'u cynnal. Gwnaethant ddweud wrthym fod trefniadau gweithio rhithwir a chydweithio agosach â phartneriaid wedi helpu i ddatblygu ac atgyfnerthu cydberthnasau gwaith, a'u bod yn gobeithio y byddai hynny'n parhau ac yn sylfaen i atebion rhanbarthol creadigol ar gyfer comisiynu a darparu gofal a chymorth.

Dyweddod y darparwyr wrthym fod yr awdurdod lleol wedi rhannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn sicrhau bod llesiant pobl yn cael ei hybu a'i ddiogelu. Roedd hefyd wedi eu cefnogi i addasu eu gwasanaethau'n gyflym er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaeth diogel. Gwelsom fod gan yr awdurdod lleol a'r darparwyr ddull darbodus o ddyrannu adnoddau a rhoi pwyslais ar ganlyniadau i bobl, a oedd wedi datblygu/cryfhau ymhellach i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol.

Ceir rhestrau aros mewn rhai meysydd gwasanaeth, gan gynnwys y Tîm Derbyn ac Asesu Oedolion, y Tîm Derbyn Plant a Chymorth i Deuluoedd a'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, gan olygu y bu'n rhaid i rai pobl aros am wasanaeth. Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym fod rheolwyr yn monitro rhestrau aros yn rheolaidd ac yn cynnal asesiadau risg yn eu cylch.

Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i annog pobl i fanteisio ar wasanaethau teleofal i gefnogi diogelwch a llesiant pobl ac mae wedi diddymu'r ffi am sefydlu gwasanaethau teleofal ers diwedd mis Mawrth 2020, wrth aros am adolygiad o'r gwasanaeth.

Dyweddod ymarferwyr wrthym am y cymorth a ddarperir gan Enfys, sef tîm o seicolegwyr clinigol, gweithwyr iechyd meddwl graddedig, a therapyddion galwedigaethol sy'n rhan o'r Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. Mae'r tîm yn cefnogi ymarferwyr a gofalwyr maeth i ddeall y plentyn ac ymateb iddo mewn ffordd therapiwtig.

Mae gweithwyr proffesiynol yn nodi'r plant a'r bobl ifanc y mae angen help arnynt ac y mae angen eu diogelu, ac yn gwneud atgyfeiriadau priodol at wasanaethau plant. Mewn llawer o achosion, gwelsom ymatebion amserol ac effeithiol a arweiniodd at ymyriadau effeithiol, cymesurol ac amserol gyda phlant a theuluoedd, a wnaeth wella eu sefyllfa. Fodd bynnag, mewn llond llaw o achosion, nid oedd tystiolaeth i gadarnhau bod diogelwch a llesiant plant wedi cael eu hybu'n gyson yn ystod y pandemig. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn monitro ac yn hybu diogelwch a llesiant plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn faes i'w wella y byddwn yn parhau i'w fonitro.

Partneriaeth ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fod yn sicr ei fod yn manteisio'n gadarnhaol ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cynllunio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r graddau mwyaf posibl, a sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ffordd integredig a chynaliadwy?

Roedd yn amlwg bod cydberthnasau â phartneriaid wedi cael eu hatgyfnerthu yn ystod y pandemig. Gwelsom a chlywsom am enghreifftiau cadarnhaol o ddulliau amlasiantaeth o reoli risgiau, ac o ymarferwyr, rheolwyr ac asiantaethau yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o'r ffordd yr oedd partneriaethau effeithiol a rhannu gwybodaeth wedi arwain at helpu i nodi a monitro anghenion a risgiau plant ac oedolion agored i niwed.

Dyweddod y darparwyr cartrefi gofal, cymorth cartref a gwasanaethau dydd y gwnaethom siarad â nhw fod yr awdurdod lleol wedi cyfathrebu'n dda iawn yn ystod y pandemig.

Roeddent yn llawn canmoliaeth am y cymorth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol. Dywedodd un darparwr *'social services has been outstanding in facilitating what we needed... There is always someone we can turn to.'* (mae gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn wych wrth hwyluso'r hyn roedd ei angen arnom... Mae rhywun y gallwn droi ato bob amser)

Llesiant – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Ar y cyfan, pan fydd angen diogelu plant ar unwaith, ymatebir yn gyflym a gwneir penderfyniadau priodol er mwyn uwchgyfeirio'r mater i'r tîm ymchwiliadau diogelu plant. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn adnabod y plant y maent yn gweithio gyda nhw yn dda a bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion.

Clywsom am y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn edrych eto ar strwythur y tîm diogelu er mwyn creu swyddi ychwanegol i'w atgyfnerthu. Gwelsom fod ymholiadau diogelu oedolion yn cael eu hateb yn amserol at ei gilydd, ond nid oedd y wybodaeth a gofnodwyd bob amser yn glir, e.e. y dyddiad y cafodd yr ymholiadau eu cwblhau. Ar y cyfan, gwelsom fod pryderon am ddiogelu oedolion yn cael eu cofnodi mewn modd amserol. Gwelsom un enghraifft lle roedd rhai aelodau o'r staff yn ymwybodol o bryder diogelu ac nad oeddent wedi cofnodi'r pryder yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Yn yr achosion y gwnaethom edrych arnynt yn y gwasanaethau oedolion, gwelsom fod asesiadau ac adolygiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol ac yn unol â gofynion statudol.

Roedd ansawdd yr asesiadau, y gofal a'r cynlluniau cymorth a'r cofnodion yn amrywio. Nid oedd yr holl ddogfennaeth a welsom bob amser yn adlewyrchu'r gwaith cadarnhaol a oedd yn cael ei wneud. Gwelsom enghreifftiau lle byddai wedi bod yn fuddiol cael pwyslais mwy amlwg ar gryfderau, a, lle y bo'n berthnasol, y cymorth a roddir gan aelodau o'r teulu a gwasanaethau eraill, er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn/oedolyn a'i amgylchiadau unigol.

Yn y gwasanaethau plant, gwelsom fod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn cael eu llunio ar y cyd â phlant a theuluoedd mewn ffordd systematig, gan arwain at nodi canlyniadau personol a darparu gwasanaethau a chymorth i gyflawni'r rhain.

Roedd yr awdurdod lleol wedi rhoi gwybod i ni ei fod yn ymwybodol o fylchau ac oedi cyn cofnodi; roedd hyn yn amlwg yn rhai o'r ffeiliau a welsom. Yn rhai o'r achosion plant a welwyd, roedd yn anodd deall profiad y plentyn a ph'un a oedd cyfrifoldebau statudol wedi'u cyflawni, am nad oedd y cofnodion yn gyfredol a bod bylchau yn y cofnodion, ac oherwydd oedi cyn lanlwytho gwybodaeth allweddol i System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Rydym yn cydnabod bod yr awdurdod lleol wedi canolbwyntio'n bennaf ar gymorth uniongyrchol/ymyriadau. Fodd bynnag, mae'r diffyg gwybodaeth gyfredol wedi'i

chofnodi i'w defnyddio i wneud penderfyniadau/ymatebion amserol, priodol a chymesur yn cyflwyno risgiau a allai effeithio ar lesiant unigolion. Mae gwella'r wybodaeth a gofnodir a sicrhau ei bod yn gywir yn feysydd i'w gwella.

Gwelsom fod gwasanaethau wedi cael eu haddasu a'r darparu mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, gwelsom fod gwasanaethau dydd wedi darparu allgymorth lle y bo angen a lle y bo'n ddiogel. Gwnaethant gadw mewn cysylltiad â phobl a gofalwyr a darparu cymorth a gweithgareddau drwy ddulliau digidol. Clywsom fod parhad gwasanaethau/cymorth wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ddiogelwch a llesiant llawer o bobl.

Dull:

- gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol
- gwnaethom siarad â phobl a oedd yn cael neu wedi cael gofal a chymorth, gan gynnwys pum person ifanc a oedd wedi cael profiad o ofal ac wyth gofalwr
- gwnaethom edrych ar 35 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal deg cyfweiliad olrhain achosion
- gwnaethom roi arolygon i; pobl a oedd wedi cael profiad o ofal a chymorth, darparwyr, sefydliadau trydydd sector, staff, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- aethom i Gyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol
- gwnaethom siarad ag ymarferwyr, rheolwyr a darparwyr

Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau allweddol a meysydd i'w gwella. Byddwn yn cadw llygad ar gynnydd yn y meysydd hyn drwy ein gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus. Rydym yn disgwyl gweld gwelliannau yn y meysydd rydym wedi'u nodi i'w cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd gyda'r trefniadau ar gyfer yr archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol

Yn gywir,



Vicky Poole

Dirprwy Brif Arolygydd

Arolygiaeth Gofal Cymru